Adran Gwaith a Phensiynau

# Mesothelioma a chlefydau ysgyfaint eraill

## Mae gennym lawer o wahanol ffyrdd y gallwn gyfathrebu â chi

Os hoffech braille, Iaith Arwyddion Prydain, dolen glyw, cyfieithiadau, print bras, sain neu rywbeth arall, ffoniwch ni ar **0800 169 0310** neu ffôn testun **0800 169 0314** a dywedwch wrthym pa un sydd ei angen arnoch.

Mae galwadau i rifau 0800 am ddim o linellau tir a ffonau symudol.

## Trin pobl yn deg

Rydym wedi ymrwymo i Ddeddf Cyfraddoldeb 2010 ac i drin pobl yn deg. I ddarganfod mwy am y gyfraith hon, chwiliwch am 'Cydraddoldeb' ar **www.gov.uk**

## Cais am daliad

Llenwch y ffurflen hon os:
- ydych yn dioddef o mesothelioma ymledol neu glefyd ysgyfaint arall, neu
- roeddech yn bartner i ddioddefwr sydd wedi marw, neu
- rydych yn plentyn neu berson ifanc neu ddibynnydd arall dioddefwr sydd wedi marw neu'n gweithredu ar eu rhan.

### Beth yw Deddf Niwmoconiosis ac ati (Iawndal Gweithwyr) 1979?

Gall pobl sy'n dioddef o rai clefydau yr ysgyfaint a achosir gan lwch penodol gael help o dan Ddeddf Niwmoconiosis ac ati (Iawndal Gweithwyr) 1979. Gallwch wneud cais os na allwch gael iawndal gan y cyflogwr neu'r darparwr hyfforddiant a achosodd neu a gyfrannodd at glefyd yr ysgyfaint.

Y clefydau ysgyfaint y gallwch hawlio amdanynt yw:
- D1 - clefyd y llwch (gan gynnwys asbestosis, silicosis a chaolinosis ac ati)
- D2 - bysinosis
- D3 - mesothelioma ymledol
- D8 - carsinoma sylfaenol yr ysgyfaint gyda thystiolaeth o asbestosis
- D8A - carsinoma sylfaenol yr ysgyfaint ar ôl dod i gysylltiad ag asbestos o dan rai amgylchiadau
- D9 - tewychu plewrol gwasgaredig unochrog neu ddwyochrog

Os oes gennych un o'r clefydau ysgyfaint, gan gynnwys mesothelioma gwasgaredig ac fe'i hachoswyd gan eich gwaith neu tra ar gynllun neu gwrs hyfforddiant cyflogaeth cymeradwy, byddwn yn ystyried taliad o dan Ddeddf Niwmoconiosis ac ati (Iawndal Gweithwyr) 1979:

- os oes gennych hawl i Fudd-dal Anabledd Anafiadau Diwydiannol am un o'r afiechydon ysgyfaint
- os na ddygwyd achos llys am iawndal mewn perthynas â chlefyd yr ysgyfaint ac na dderbyniwyd setliad y tu allan i'r llys
- os yw'r cyflogwr neu'r darparwr hyfforddiant a achosodd neu a gyfrannodd at amlygiad llwch wedi stopio masnachu, neu
- os yw'r cyflogwr neu'r darparwr hyfforddiant yn dal i fasnachu, rhaid sicrhau nad oes siawns realistig o gael iawndal, neu
- roedd y gwaith a achosodd glefyd yr ysgyfaint fwy nag 20 mlynedd yn ôl.

Llenwch yr adran Chi (cwestiynau 1 i 11) a gweddill y ffurflen o'r adran Gwybodaeth am glefyd yr ysgyfaint (o gwestiwn 30).

**Noder** - Bydd angen i chi ddarparu tystiolaeth eich bod yn dioddef o un o'r afiechydon a restrir. Er enghraifft, llythyr gan eich nyrs, meddyg neu ymgynghorydd yn dangos bod gennych y clefyd a'r dyddiad y cawsoch eich diagnosio.

## Beth yw'r Cynllun Mesothelioma Ymledol 2008?

O dan y cynllun hwn gallwch gael un taliad cyfandaliad os ydych yn dioddef o mesothelioma ymledol. Nid oes rhaid i hyn gael ei achosi gan waith neu hyfforddiant. Ond os cawsoch y clefyd hwn oherwydd y gwaith neu'r hyfforddiant yr oeddech yn arfer ei wneud i gyflogwr neu ddarparwr hyfforddiant, efallai y bydd gennych hawl i daliad o dan Ddeddf Niwmoconiosis ac ati (Iawndal Gweithwyr) 1979.

Os oes gennych mesothelioma ymledol ac na chawsoch y clefyd o'r gwaith na'r hyfforddiant, cwblhewch yr adran Chi cwestiynau 1 i 11), yn yr adran Y clefyd (cwestiynau 30 i 38) a gweddill y ffurflen o'r adran Iawndal ac achos llys (o gwestiwn 75). Byddwn yn ystyried y taliad o dan Gynllun Mesothelioma Ymledol 2008.

**Noder** – Bydd angen i chi ddarparu llythyr gan eich ymarferydd meddygol, er enghraifft, nyrs o'r rhwydwaith nyrsys canser yr ysgyfaint, neu eich meddyg neu ymgynghorydd. Mae'n rhaid i'r llythyr ddangos y dyddiad y cawsoch eich diagnosio gyda'r afiechyd.

## Pryd mae'n rhaid i mi wneud cais?

Mae'n rhaid i chi wneud cais cyn gynted ag y gwyddoch fod gennych glefyd yr ysgyfaint.

- Os ydych yn gwneud cais o dan Ddeddf 1979, mae'n rhaid i chi wneud cais o fewn 12 mis i'r dyddiad y daethoch yn gymwys i Fudd-dal Anabledd Anafiadau Diwydiannol.
- Os ydych yn gwneud cais o dan Gynllun 2008, mae'n rhaid i chi wneud cais o fewn 12 mis i'r dyddiad y cawsoch eich diagnosio.

Os byddwch yn oedi, efallai na fyddwn yn gallu eich talu.

**Noder** – Os ewch ymlaen i gael unrhyw iawndal arall, efallai y byddwn yn adennill yr arian a dalwyd gennych o dan y cynlluniau hyn o'r iawndal.

## Partner a dibynyddion

Os yw person wedi:
- dioddef o un o afiechydon yr ysgyfaint, a
- wedi marw, a
- heb hawlio cyfandaliad

gall eu dibynyddion neu bartner wneud cais, ond rhaid iddynt wneud hynny cyn pen 12 mis o ddyddiad y farwolaeth. Cofiwch gynnwys copi o'r dystysgrif marwolaeth gyda'r cais.

Gallwch ddod o hyd i ragor o wybodaeth am y ddau gynllun ar ein gwefan www.gov.uk

## Sut wyf yn gwneud cais?

Llenwch y ffurflen a'i dychwelyd i:

**Barnsley Industrial Injuries Disablement Benefit office**
**Mail Handling Site A**
**Wolverhampton**
**WV98 1SY**

Rhadffôn **0800 279 2322**.

Os ydych yn llenwi'r ffurflen hon gyda beiro, ysgrifennwch mewn inc du ac mewn llythrennau BRAS. Cofiwch, os oes angen help arnoch i lenwi'r ffurflen hon, neu unrhyw ran ohoni, ffoniwch **0800 279 2322**.

## Rhannu gwybodaeth am eich cyflwr iechyd

Efallai y bydd angen gwybodaeth ar eich cyflwr iechyd a sut mae'n effeithio arnoch ar DWP neu weithwyr proffesiynol gofal iechyd cymeradwy sy'n gweithio i DWP.

Efallai y byddant yn gofyn am wybodaeth berthnasol gan eich meddyg, neu unrhyw weithiwr proffesiynol perthnasol arall rydych yn dweud wrthynt amdano.

**A ydych yn rhoi eich caniatâd i'ch meddyg neu weithwyr proffesiynol perthnasol eraill roi mwy o wybodaeth i DWP am eich cyflwr iechyd?**

☐ Ydw, gellir rhannu gwybodaeth am fy iechyd gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau neu'r gweithwyr gofal iechyd proffesiynol sy'n gweithio iddynt.

☐ Na, ni ellir rhannu gwybodaeth am fy iechyd gyda'r DWP na'r gweithwyr gofal iechyd proffesiynol sy'n gweithio iddynt.

### Sut mae DWP yn defnyddio'r wybodaeth hon

Mae DWP yn defnyddio'r wybodaeth hon i:
- prosesu eich cais
- gwneud penderfyniad ar eich cais, neu unrhyw ailystyriaeth orfodol neu apêl a wnewch.

Mae'r gyfraith yn caniatáu i DWP cael, cadw a defnyddio'r wybodaeth hon.

Mae angen eich caniatâd ar eich meddyg (neu weithwyr proffesiynol perthnasol eraill rydych yn dweud wrth DWP amdanynt) i roi gwybodaeth i DWP. Os rhowch eich caniatâd, mae hyn yn gadael iddynt wybod eu bod yn cael caniatâd cyfreithiol i rannu'r wybodaeth hon gyda DWP.

Gall DWP ofyn yn gyfreithlon i'ch meddyg, ymgynghorydd ysbyty neu weithwyr proffesiynol perthnasol eraill am wybodaeth am eich cyflwr iechyd a sut mae'n effeithio arnoch.

Mae hyn oherwydd ein bod yn gofyn am y wybodaeth i'n helpu i gyflawni ein swyddogaethau nawdd cymdeithasol swyddogol.

Nid oes rhaid i chi roi eich caniatâd. Os na wnewch hynny, bydd DWP yn gwneud penderfyniad yn seiliedig ar y wybodaeth sydd ganddynt eisoes, yn ogystal ag unrhyw un a roddwch iddynt eich hun.

### Os byddwch yn newid eich meddwl

Gallwch newid eich meddwl. Gallwch wneud hyn trwy gysylltu â 0800 121 8379 a dweud eich bod am roi neu dynnu eich caniatâd yn ôl. Os tynnwch eich caniatâd yn ôl, ni all DWP gael gwybodaeth gan eich meddyg neu eraill a enwir ar eich ffurflen.

Rwyf wedi darllen a deall y testun uchod.

**Eich llofnod**

[ ]

Dyddiad

DD/MM/BBBB

[ ]

## Chi

### Sut i lenwi'r ffurflen hon

- Os ydych yn dioddef o un o'r afiechydon ysgyfaint a restrir, llenwch yr adran **Chi** (cwestiynau 1 i 11) yna ewch i'r adran **Gwybodaeth am glefyd yr ysgyfaint** (gan ddechrau yng nghwestiwn 30).
- Os ydych yn hawlio iawndal ar ran eich partner sydd wedi marw o glefyd yr ysgyfaint, llenwch yr adran **Chi** (cwestiynau 1 i 11) yna ewch i'r adran **Am y dioddefwr** (gan ddechrau ar gwestiwn 23).

- Os ydych yn, neu'n gweithredu ar ran, plentyn neu berson ifanc neu ddibynnydd arall o ddioddefwr sydd wedi marw o glefyd yr ysgyfaint, llenwch yr adran **Chi** (cwestiynau 1 i 11) yna ewch i'r adran **Cais gan ddibynydd** (gan ddechrau ar gwestiwn 12).
- Mae partner yn golygu:
  - person rydych yn briod â nhw neu berson rydych yn byw gyda nhw fel eich bod yn briod â nhw, neu
  - partner sifil neu berson rydych yn byw gyda nhw fel petaech yn bartneriaid sifil.
- Mae plentyn golygu person o dan 16 oed.
- Mae person ifanc yn golygu person rhwng 16 a 21 oed nad ydynt mewn gwaith llawn amser.
- Mae dibynnydd yn golygu person nad yw'n gallu cynnal ei hun yn barhaol.

**01 Eich teitl**

Mr, Mrs, Miss, Ms, arall

**02 Cyfenw neu enw teuluol**

**03 Pob enw arall yn llawn**

**04 Unrhyw gyfenwau eraill rydych yn cael eu hadnabod ganddynt neu'n eu defnyddio yn awr.**

Cofiwch gynnwys enw cyn priodi, pob hen enw priod a phob newid o ran enw teuluol

**05 Cyfeiriad**

Cod post

**06 Eich rhif ffôn yn ystod y dydd, os oes gennych un**

**07 Eich rhif ffôn symudol**

**08 Cyfeiriad e-bost**

**09 Dyddiad geni**

DD/MM/BBBB

**10 Rhif Yswiriant Gwladol (NI)**

Gallwch ddod o hyd i'r rhif ar eich cerdyn rhif Yswiriant Gwladol, llythyrau am eich budd-dal neu slipiau cyflog.

**11 Rheswm dros wneud cais**

☐ Fi yw'r dioddefwr

Ewch i'r adran **Gwybodaeth am glefyd yr ysgyfaint** (gan ddechrau ar **gwestiwn 30**)

☐ Fi yw'r partner sydd wedi goroesi

Ewch i'r adran **Y person sy'n dioddef** (gan ddechrau ar **gwestiwn 23**)

☐ Fi yw dibynnydd y dioddefwr diweddar

Ewch i'r adran **Am gais gan ddibynnydd** (gan ddechrau ar **gwestiwn 12**)

## Am gais gan ddibynnydd

**12** **Beth oedd eich perthynas gyda'r person roedd yn dioddef?**

Efallai y byddwn yn gofyn i chi roi tystiolaeth o'ch perthynas.

**13** **A oeddech yn ddibynnydd y person ar amser eu marwolaeth?**

☐ Na

☐ Oeddwn

Rhowch wybod i ni amdanynt.

**14** **A oes unrhyw blant neu bobl ifanc arall neu berthnasau sy'n dibynyddion y credwch y fyddai gyda hawl i daliad o dan y Ddeddf?**

☐ Na

☐ Oes

Rhowch wybod i ni amdanynt isod.

### Perthynas Cyntaf

**15** **Cyfenw neu enw teuluol**

**16** **Unrhyw enwau eraill yn llawn**

**17** **Cyfeiriad**

Cod post

**18** **Dyddiad geni**

DD/MM/BBBB

### Ail berthynas

**19** **Cyfenw neu enw teuluol**

**20** **Unrhyw enwau eraill yn llawn**

**21** **Cyfeiriad**

Cod post

**22** **Cyfeiriad**

DD/MM/BBBB

Os oes angen i chi ddweud wrthym am unrhyw berthnasau dibynnol eraill, defnyddiwch ddalen o bapur ar wahân. Gwnewch yn siŵr eich bod yn rhoi eich enw llawn a'ch rhif Yswiriant Gwladol (NI) ar bob dalen rydych yn ei defnyddio.

## Y person sy'n dioddef

**23** **Eu cyfenw neu enw teuluol**

**24** **Pob enw arall yn llawn**

**25** **Pob cyfenw neu enw teuluol arall maent wedi cael eu hadnabod ganddynt**

Cofiwch gynnwys enw cyn priod, pob hen enw priod a newid i'r enw teuluol

**26** **Eu cyfeiriad diwethaf**

Cod post

**27** **Eu dyddiad geni**

DD/MM/BBBB

**28** **Eu dyddiad marw**

DD/MM/BBBB

Os oes gennych y dystysgrif marwolaeth, anfonwch gopi atom gyda'r ffurflen hon.

**29** **Eu Rhif Yswiriant Gwladol (NI)**

Gallwch ddod o hyd i'r rhif ar eu cerdyn rhif Yswiriant Gwladol, llythyrau am eu budd-dal neu slipiau cyflog.

## Am glefyd yr ysgyfaint

**30** **Os mai chi yw'r dioddefwr, pa glefyd yr ysgyfaint ydych yn dioddef ohono?**

**neu**

**Os ydych yn gwneud cais ar ran y diweddar ddioddefwr, pa glefyd yr ysgyfaint oedd achos marwolaeth y person a fu'n dioddef?**

Ticiwch y blychau sy'n berthnasol.

- ☐ D1 - clefyd y llwch (gan gynnwys asbestosis, silicosis a chaolinosis ac ati)
- ☐ D2 - bysinosis
- ☐ D3 - mesothelioma ymledol
- ☐ D8 - carsinoma sylfaenol yr ysgyfaint gyda thystiolaeth o asbestosis
- ☐ D8A - carsinoma sylfaenol yr ysgyfaint ar ôl dod i gysylltiad ag asbestos o dan rai amgylchiadau
- ☐ D9 - tewychu plewrol gwasgaredig unochrog neu ddwyochrog

**31** **A gafwyd hyn yn y gwaith?**

- ☐ Na — Ewch i gwestiwn 33
- ☐ Do — Ewch i gwestiwn 32

**32** **Os mai chi yw'r dioddefwr, a ydych yn cael, neu a ydych erioed wedi gwneud cais am, Fudd-dal Anabledd Anafiadau Diwydiannol (IIDB)?**

**neu**

**Os ydych yn gwneud cais ar ran y diweddar ddioddefwr, a gawsant, neu a wnaethant erioed wneud cais am Fudd-dal Anabledd Anafiadau Diwydiannol (IIDB)?**

☐ Na Ewch i gwestiwn 39

☐ Ydw Ewch i gwestiwn 39

Atebwch y cwestiynau hyn dim ond os gwnaethoch gael mesothelioma ymledol y tu allan i'r gwaith neu hyfforddiant.

**33** **Beth yw enw a chyfeiriad eich meddyg teulu?**

Cod post

**34** **Os oes gennych nyrs arbenigol, beth yw eu henw?**

**35** **Beth yw enw eich ymgynghorydd?**

**36** **Beth yw cyfeiriad yr ysbyty?**

Cod post

Mae angen i ni weld llythyr gan eich ymarferydd meddygol, er enghraifft, nyrs o'r rhwydwaith nyrsys canser yr ysgyfaint, neu eich meddyg neu ymgynghorydd. Mae'n rhaid i'r llythyr ddangos y dyddiad y cawsoch eich diagnosio gyda'r afiechyd.

**37** **A wnaethoch ddod i gysylltiad ag asbestos yn y DU?**

☐ Na

☐ Do

**38** **Ers faint ydych wedi byw yn y DU?**

Nawr ewch i **gwestiwn 75**

## Yr hanes cyflogaeth

Mae'n bwysig eich bod yn llenwi'r ffurflen hon yn llawn. Mae angen i ni wybod hanes cyflogaeth o adael yr ysgol hyd at ymddeoliad.

Dylech barhau ar ddalen o bapur ar wahân pe bai mwy na chwe chyflogwr. Gwnewch yn siŵr eich bod yn rhoi eich enw llawn a'ch rhif Yswiriant Gwladol (NI) ar bob dalen rydych yn ei defnyddio.

### Hanes cyflogaeth 1

**39** **Dyddiadau cyflogaeth**
DD/MM/BBBB

O

I

**40** **Enw a chyfeiriad y cyflogwr**

Cod post

**41** **Busnes yn y gweithle**

**42** **Math o waith**

**43** **Dod i gysylltiad â llwch niweidiol**
Dywedwch wrthym enw'r llwch.

**44** **Dod i gysylltiad ag asbestos**

☐ Na

☐ Do

### Hanes cyflogaeth 2

**45** **Dyddiadau cyflogaeth**
DD/MM/BBBB

O

I

**46** **Enw a chyfeiriad y cyflogwr**

Cod post

**47** **Busnes yn y gweithle**

**48** **Math o waith**

**49** **Dod i gysylltiad â llwch niweidiol**
Dywedwch wrthym enw'r llwch.

**50** **Dod i gysylltiad ag asbestos**

☐ Na

☐ Do

## Hanes cyflogaeth 3

**51 Dyddiadau cyflogaeth**
DD/MM/BBBB

O

I

**52 Enw a chyfeiriad y cyflogwr**

Cod post

**53 Busnes yn y gweithle**

**54 Math o waith**

**55 Dod i gysylltiad â llwch niweidiol**
Dywedwch wrthym enw'r llwch.

**56 Dod i gysylltiad ag asbestos**

☐ Na

☐ Do

## Hanes cyflogaeth 4

**57 Dyddiadau cyflogaeth**
DD/MM/BBBB

O

I

**58 Enw a chyfeiriad y cyflogwr**

Cod post

**59 Busnes yn y gweithle**

**60 Math o waith**

**61 Dod i gysylltiad â llwch niweidiol**
Dywedwch wrthym enw'r llwch.

**62 Dod i gysylltiad ag asbestos**

☐ Na

☐ Do

## Hanes cyflogaeth 5

**63 Dyddiadau cyflogaeth**
DD/MM/BBBB

O

I

**64 Enw a chyfeiriad y cyflogwr**

Cod post

**65** **Busnes yn y gweithle**

**66** **Math o waith**

**67** **Dod i gysylltiad â llwch niweidiol**
Dywedwch wrthym enw'r llwch.

**68** **Dod i gysylltiad ag asbestos**
- ☐ Na
- ☐ Do

## Hanes cyflogaeth 6

**69** **Dyddiadau cyflogaeth**
DD/MM/BBBB

O

I

**70** **Enw a chyfeiriad y cyflogwr**

Cod post

**71** **Busnes yn y gweithle**

**72** **Math o waith**

**73** **Dod i gysylltiad â llwch niweidiol**
Dywedwch wrthym enw'r llwch.

**74** **Dod i gysylltiad ag asbestos**
- ☐ Na
- ☐ Do

## Iawndal neu achos llys

**75** **A ydych wedi cael eich talu unrhyw iawndal oherwydd anabledd?**

Er enghraifft:

- iawndal a ddyfarnwyd gan y llys
- setliad y tu allan i'r llys
- iawndal gan gyflogwr
- taliad am Gynllun Iawndal y Lluoedd Arfog, neu
- taliad o'r Cynllun Niwmoconiosis Gweithwyr Glo.

☐ Na

☐ Do

**76** **A ydych yn aros i glywed am unrhyw iawndal oherwydd anabledd?**

☐ Na

☐ Ydw

**77** **A oes gennych gyfreithiwr neu unrhyw gynrychiolydd cyfreithiol arall yn gweithredu ar eich rhan wrth ddwyn achos llys neu gais am iawndal?**

☐ Na

☐ Oes

Dywedwch wrthym amdanynt isod

Enw

Cyfeiriad

Cod post

Rhif ffôn

Rhif cyfeirnod y cyfreithiwr

**Os ydych ar unrhyw bwynt yn ystod eich cais yn cael iawndal neu'n dechrau achos llys oherwydd yr anabledd, dylech ddweud wrthym ar unwaith.**

**Noder** - Mae'n bwysig dweud wrthym y cyfeirnod y mae eich cyfreithiwr wedi'i roi i chi. Os nad ydych yn gwybod y cyfeirnod, gofynnwch i'ch cyfreithiwr amdano.

Defnyddiwch y gofod hwn i ddweud wrthym am unrhyw gais am iawndal a wnaethoch erioed o unrhyw ffynhonnell mewn cysylltiad ag unrhyw glefyd yr ysgyfaint. Rhowch fanylion yr hawliad a phryd y cafodd ei wneud.

Os nad oes digon o le, defnyddiwch ddalen o bapur ar wahân. Gwnewch yn siŵr eich bod yn rhoi eich enw llawn a'ch rhif Yswiriant Gwladol ar bob dalen rydych yn ei defnyddio.

## Sut rydym yn eich talu

### Fel arfer, rydym yn talu'ch arian i gyfrif

Bydd llawer o fanciau a chymdeithasau adeiladu yn gadael i chi gasglu'ch arian yn y swyddfa bost. Byddwn yn dweud wrthych pryd y gwnawn y taliad a faint fydd ar ei gyfer.

### Darganfod faint rydym wedi'i dalu i'r cyfrif

Gallwch wirio'ch taliad ar gyfriflenni cyfrif. Gall y gyfriflen ddangos eich rhif Yswiriant Gwladol (NI) wrth ymyl unrhyw daliad a wnaethom. Os credwch fod y taliad yn anghywir, cysylltwch â'r swyddfa a ddangosir ar dudalen 3.

### Os byddwn yn talu gormod i chi

Mae gennym yr hawl i gymryd yn ôl unrhyw arian rydym yn ei dalu nad oes gennych hawl iddo. Gall hyn fod oherwydd y ffordd y mae'r system yn gweithio am daliadau i gyfrif.

Er enghraifft, efallai y byddwch yn rhoi rhywfaint o wybodaeth i ni, sy'n golygu bod gennych hawl i lai o arian. Weithiau efallai na fyddwn yn gallu newid y swm rydym eisoes wedi'i dalu i chi. Mae hyn yn golygu y byddwn wedi talu arian i chi nad oes gennych hawl iddo. Byddwn yn cysylltu â chi cyn i ni gymryd unrhyw arian yn ôl.

### Beth i'w wneud nawr

- Dywedwch wrthym am y cyfrif rydych am ei ddefnyddio ar y dudalen nesaf. Trwy roi manylion eich cyfrif i ni:
  - cytuno y byddwn yn eich talu i gyfrif, a
  - deall yr hyn rydym wedi'i ddweud wrthych uchod yn yr adran 'Os byddwn yn talu gormod i chi'.
- Os byddwch yn agor cyfrif, dywedwch wrthym fanylion eich cyfrif cyn gynted ag y byddwch yn eu cael.
- Os nad oes gennych gyfrif, cysylltwch â ni a byddwn yn rhoi mwy o wybodaeth i chi.

## Y cyfrif rydych am ei ddefnyddio

- Gallwch ddefnyddio cyfrif yn eich enw chi, neu enw ar y cyd.
- Gallwch ddefnyddio cyfrif rhywun arall os:
  - yw telerau ac amodau eu cyfrif yn caniatáu hyn, a
  - maent yn cytuno i adael i chi ddefnyddio eu cyfrif, ac
  - rydych yn siŵr y byddant yn defnyddio'ch arian yn y ffordd rydych yn dweud wrthym.
- Gallwch ddefnyddio cyfrif undeb credyd. Mae'n rhaid i chi ddweud wrthym fanylion cyfrif yr undeb credyd. Bydd eich undeb credyd yn gallu eich helpu gyda hyn.
- Os ydych yn benodai neu'n gynrychiolydd cyfreithiol sy'n gweithredu ar ran yr hawlydd, dylai'r cyfrif fod yn eich enw chi yn unig.

Dywedwch wrthym fanylion eich cyfrif gan ddechrau ar gwestiwn 78.

Mae'n bwysig iawn eich bod yn llenwi'r holl flychau yn gywir, gan gynnwys rhif rhol y gymdeithas adeiladu neu'r cyfeirnod, os oes gennych un. Os dywedwch wrthym y manylion cyfrif anghywir efallai y bydd eich taliad yn cael ei ohirio neu efallai y byddwch yn colli arian.

Gallwch ddod o hyd i fanylion y cyfrif ar eich llyfr siec neu'ch cyfriflenni banc. Os nad ydych yn gwybod manylion y cyfrif, gofynnwch i'r banc neu'r gymdeithas adeiladu.

**78** **Enw deilydd y cyfrif**

Ysgrifennwch enw deilydd y cyfrif yn union fel y dangosir ar y llyfr siec neu'r cyfriflen

[ ]

**79** **Enw llawn y banc neu'r gymdeithas adeiladu**

[ ]

- Os ydych am i ni dalu'ch arian i gyfrif yn y DU, dywedwch wrthym am hyn ym manylion cyfrif y DU.
- Os ydych am i ni dalu'ch arian i gyfrif tramor, dywedwch wrthym am hyn ym manylion y cyfrif Tramor.

### Manylion cyfrif y DU

**80** **Cod didoli**

Dywedwch wrthym bob un o'r 6 rhif, er enghraifft 12-23-56.

[ ][ ] – [ ][ ] – [ ][ ]

**81** **Rhif y cyfrif**

Mae'n rhaid i hyn fod rhwng 6 a 10 rhif. Os oes gan eich rhif cyfrif lai na 10 rhif, llenwch y rhifau o'r chwith.

[ ][ ][ ][ ][ ][ ][ ][ ][ ][ ]

**82 Rhif rhol neu gyfeirnod y gymdeithas adeiladu**

Os ydych yn defnyddio cyfrif cymdeithas adeiladu, efallai y bydd angen i chi ddweud wrthym y rhif rhol neu gyfeirnod. Mae hwn yn cynnwys llythrennau a rhifau, a gall fod hyd at 18 nod o hyd. Os nad ydych yn siŵr a oes gan y cyfrif rhif rhol neu gyfeirnod, gofynnwch i'r gymdeithas adeiladu.

## Manylion cyfrif dramor

**83 Rhif Cyfrif Banc Rhyngwladol (IBAN)**

Mae rhai IBANs yn hir iawn. Er enghraifft, i'r Eidal dylai fod yn 27 nod o hyd ac ar gyfer Lwcsembwrg dylai fod yn 20 nod o hyd. Os oes gan eich rhif cyfrif lai na 27 rhif, llenwch y rhifau o'r chwith.

**84 Cod Adnabod Banc (SWIFT)**

**85 Rhif BSB**

Awstralia yn unig

## Datganiad

Trwy lofnodi'r datganiad hwn, rydych yn cytuno:
- bod y wybodaeth rydych wedi'i rhoi i ni yn gywir ac yn gyflawn
- byddwch yn dweud wrthym am newidiadau mewn amgylchiadau ar unwaith.

Os yw'r wybodaeth a roddwch i ni yn anghywir neu'n anghyflawn, neu os nad ydych yn rhoi gwybod am newidiadau ar unwaith:
- gallwn stopio neu leihau eich budd-dal
- efallai y telir gormod o fudd-dal i chi a bydd yn rhaid i chi dalu hwn yn ôl
- efallai y bydd yn rhaid i chi dalu cosb ariannol
- gallwn eich erlyn.

Rwyf yn deall bod yn rhaid i mi ddweud wrthych yn brydlon os byddaf yn cael iawndal o rywle arall am y clefyd yr wyf wedi gwneud cais amdano.

**Dyma fy nghais am iawndal sy'n gysylltiedig â llwch.**

**Llofnod**

**Dyddiad**
DD/MM/BBBB

## Beth i'w wneud nawr

Anfonwch y ffurflen gais hon i:
**Barnsley Industrial Injuries Disablement Benefit office**
**Mail Handling Site A**
**Wolverhampton**
**WV98 1SY**

Peidiwch ag oedi, neu efallai y gallwch golli arian.

## Sut mae'r Adran Gwaith a Phensiynau yn casglu ac yn defnyddio'r gwybodaeth

Pan fyddwn yn casglu'r gwybodaeth amdanoch gallwn ei ddefnyddio at unrhyw un o'n dibenion. Mae'r rhain yn cynnwys:
- budd-daliadau a lwfansau nawdd cymdeithasol
- cynhaliaeth plant
- cyflogaeth a hyfforddiant
- ymchwilio ac erlyn troseddau credydau treth
- polisi pensiynau preifat, a
- cynllunio ar gyfer ymddeoliad.

Efallai y cawn wybodaeth amdanoch gan bartïon eraill ar gyfer unrhyw rai o'n dibenion fel y mae'r gyfraith yn ei ganiatáu er mwyn gwirio'r wybodaeth a roddwyd gennych ac i wella ein gwasanaethau. Gallwn hefyd rhoi gwybodaeth i sefydliadau eraill fel y mae'r gyfraith yn ei ganiatáu, er enghraifft i ddiogelu yn erbyn troseddau.

I ganfod mwy am ein dibenion, sut rydym yn defnyddio gwybodaeth bersonol at y dibenion hyn a'ch hawliau gwybodaeth, gan gynnwys sut i ofyn am gopi o'ch gwybodaeth, chwiliwch am Siarter Gwybodaeth Bersonol yr Adran Gwaith a Phensiynau ar **www.gov.uk/dwp/siarter-gwybodaeth-bersonol**